Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 11.05.2021

## Croesawu'r cwsmer yn ddiogel yng Ngwynedd

Yn ystod y cyfnod clo, mae Cyngor Gwynedd a busnesau'r sir wedi bod yn cydweithio er mwyn paratoi i groesawu cwsmeriaid yn ddiogel yn ôl i'n Strydoedd Fawr fel mae mae'r cyfyngiadau yn llacio. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau datganiad parthed sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu cronfa grant Croesawu'r Cwsmer yn Ddiogel ar gyfer prynu offer allanol i fusnesau canol trefi ym mhrif ganolfannau'r Sir. I weld y datganiad yn llawn, ewch i:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd11Mai2021

## Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog: Lansiad Grantiau Busnes 17 Mai 2021

Mae Fferm Wynt Coedwig Clocaenog yn brosiect fferm wynt ar y tir ac yn berchen i RWE. Fe'i hadeiladwyd ar dir a brydlesir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Fel rhan o'r prosiect, mi fydd

buddsoddiad o £19miliwn dros gyfnod o 25 mlynedd i ardaloedd sydd o fewn yr ardal budd o fewn siroedd Conwy a Dinbych, ac mae rhan o dde-ddwyrain Gwynedd hefyd yn yr Ardal Budd Cymunedol. Cyfle cyffrous iawn i fusnesau sefydliedig a newydd gael datblygu prosiectau. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.cvsc.org.uk/cy/ariannu/clocaenog-cym

# Diweddariad Brexit

- Gweithio, perfformio a theithio yn Ewrop – canllawiau i gerddorion a staff cysylltiedig yn perfformio neu'n teithio mewn gwlad yn yr UE, y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein. Ewch i:

https://bit.ly/3f8EOV7

- Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn cynnig cyngor i fasnachwyr ym Mhrydain Fawr ar sut i gyflwyno eu datganiadau mewnforio tollau gohiriedig ar gyfer nwyddau nas rheolir a fewnforir o'r UE. Ewch i:

https://bit.ly/3uIZmKE

- Anfonwyd llythyrau gan CThEM at fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ym Mhrydain Fawr ac sy'n masnachu â'r UE, neu'r UE a gweddill y byd, yn esbonio'r hyn y mae angen i fusnesau ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r rheolau a'r prosesau newydd ar gyfer symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a'r UE. Ewch i:

https://bit.ly/3beqfhC

- Calendr o weminarau sydd ar y gweill ar gyfer sefydliadau sy'n masnachu gyda'r UE. Ewch i:

https://bit.ly/3o4kk43

# CRISP21 – Cyfarfod Cymorth Cyllid Ar-Lein am ddim 19 Mai 2021

Mae'r Llywodraeth Cymru, mewn cydweitheithrediad â Innovate UK, Y Knowledge Transfer Network â'r Enterprise Europe Network (ail enwyd

Innovate UK Edge) yn cynnal Cyfarfod Cymorth Cyllid Arloesi Ar-Lein i helpu Cwmnïoedd dewiswyd yng Nghymru paratoi eu hunan yn well ar gyfer:-

- Cynnig am gyllid YaD
- Cynnal Prosiectau Ymchwil a Datblygu mwy effeithiol
- Ymelwa ar y canlyniadau

Mae cofrestru yn angenrheidiol. Am fwy o fanylion, ewch i:

https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/crisp21-cyfarfod-cymorth-cyllid-ar-lein/

## CCIF: Gadewch i ddigidol godi'r slac – Gweminarau am ddim i gynyddu adnoddau

Os oes angen mwy o oriau arnoch yn y dydd i wneud tasgau llafurus megis anfonebu, amserlenni a chwblhau gwaith papur, gall Cyflymu Cymru i Fusnesau (CCIF) ddangos i chi sut i'w gwneud yn ddiogel ac yn gyflym. Cofrestrwch ar gyfer un o'u gweminarau Gweithio'n Gallach am ddim a dysgwch sut mae digidol yn cynyddu adnoddau, fel y gallwch chi wneud mwy gyda llai. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/gweminarau-gweithion-ddoethach

## Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru: Digwyddiadau Cymunedol

Mae cyfle i drigolion a busnesau'r ardal ddeall mwy am enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru mewn cyfres o ddigwyddiadau cymunedol rhithwir, a gynhelir o 10 – 20 Mai 2021 gan swyddogion o Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y cais, a rhai o bartneriaid allweddol y prosiect. Dyma restr o'r digwyddiadau sy'n weddill, gyda dolenni cofrestru:

- Ardal Abergynolwyn a Tywyn: 12 Mai 2021, 6:00pm
  https://bit.ly/3xTFvKz

- Ardal Dyffryn Nantlle: 17 Mai 2021, 6:00pm
  https://bit.ly/3y2Ls8f

- Ardal Dyffryn Ogwen: 18 Mai 2021, 6:00pm
  https://bit.ly/2R0vmet

- Ardal Chwarel Dinorwig: 20 Mai 2021, 6:00pm
  https://bit.ly/33pbnJ2

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru